



Blwyddyn Newydd Dda i'n Holl Ddarllenwyr

Protest y Fferyllfa

Mae Fferyllfa Tal-y-bont yn cynnig gwasanaeth hollbwysig i'r pentref ac i'r gymuned ehangach. Mawr yw'r gwerthfawrogiad o'r ymdrechion a wnaed gan y Fferyllfa yn ystod cyfnod anodd y pandemig ac yn ganolog i hyn oll oedd cyfraniad amhrisiadwy Cerian Screen a fu'n arwain y gwasanaeth. Siom felly oedd clywed fod Cerian wedi'i diswyddo gan arwain at brotestiadau y tu allan i'r Fferyllfa ar 6 a 9 Ionawr a rhai cannoedd o drigolion y cylch yn arwyddo deisebau ar bapur ac ar-lein yn galw ar berchennog y Fferyllfa, Gary Jones, i adfer Cerian i'w swydd.



Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, bydd unrhyw un sydd wedi taro mewn i'r Fferyllfa am gymorth neu gyngor gan Cerian yn gwybod pa mor angerddol ac ymroddedig yw hi a faint o gaffaeliad yw hi i'r gymuned leol. Bu'n gwasanaethu'r ardal ers pedair blynedd ac yn ystod y pandemig, pan oedd hi'n anodd cael apwyntiad meddyg teulu, trodd nifer fawr o bobl yr ardal at y Fferyllfa fel gwasanaeth rheng flaen. Mae Cerian wedi cael ei chydabod a'i gwobrwyo droeon am ei gwaith ardderchog, gan dderbyn 'Gwobr Rhagoriaeth wrth Ddarparu Agenda Hunanofal mewn Fferylliaeth Gymunedol' ddiwedd 2020 ac yna yn 2022 daeth llwyddiant i'r fferyllfa eto, yng Ngwobrau Fferylliaeth Annibynnol Llundain, gyda Cerian yn derbyn yr ail wobwr ar ran y Fferyllfa am ei gwasanaeth gwerthfawr i'r gymuned.

Gymaint oedd y parch tuag ati a'r awydd i'w chadw yn Fferyllfa Tal-y-bont, lluniwyd deiseb ar fyrder yn dilyn y newyddion am y diswyddo. Bellach mae deiseb bapur yn Garej Davmor yn galw ar berchennog y Fferyllfa, i ailystyried y penderfyniad. Cyhoeddwyd deiseb ar-lein hefyd (<https://www.change.org/p/save-our-local-pharmacist>), lle mae apêl glir i weithredu: "Mae Cerian wedi helpu cymaint ohonom, ein tro ni yw hi nawr i'w helpu hi. Llofnodwch y ddeiseb hon i'w hadfer hi i'w swydd."

Deallir bod y Cynghorydd Ellen ap Gwynn wedi anfon llythyr at Gary Jones ar ran Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr yn gofyn iddo ailystyried ei benderfyniad ac y bydd hi hefyd yn ysgrifennu at y Bwrdd

Iechyd. Cafodd Catrin M S Davies, Cynghorydd Sir Ceulanamaesmawr, gyfarfod gyda'r Bwrdd Iechyd a doedden nhw ddim am fynegi barn ar y sefyllfa dim ond i bwysleisio y bydd y Fferyllfa yn darparu yr un gwasanaethau clinigol i'r dyfodol, gan gynnwys brechiadau ffiwi, triniaethau anhwylderau cyffredin, meddyginiaethau argyfwng, dulliau atal cenhedlu argyfwng. Bydd y gwasanaeth cyngor gan y fferylllydd heb orfod cael apwyntiad yn parhau a phan ddaw'r fferylllydd parhaol mi fydd gwasanaeth presgripsiwn (PIPS) ar gael yn y Fferyllfa.

Cysylltodd Papur Pawb â Gary Jones am sylw ar y mater ond ni chafwyd ymateb ac wrth i'r papur fynd i'r wasg, deallwn fod y Fferyllfa wedi ailagor gyda'r perchennog ei hun yn gwasanaethu yno.

Mae'r Fferyllfa dan gytundeb gyda'r Awdurdod Iechyd i gynnal gwasanaeth cyflawn a deallwn y bydd fferylllydd newydd yn rheoli'r Fferyllfa o hyn allan. Y gobaith yw y bydd yn cynnig gwasanaeth llawn cystal ag a gafwyd o'r blaen.

Cymdeithas Sioe Tal-y-bont

Nasau
BINGO

18-02-23
Neuadd Goffa Talybont
19:30

Gwobrau Ariannol a Raffl

Croeso i bawb

Papur Pawb

Golygydd Cyffredinol:

Gwyn Jenkins
(01970) 832560
Maesgwyn, Tal-y-bont, Ceredigion
golygydd@papurpawb.com

Tynnu lluniau:

Cysyllter â golygyddion y mis

GOHEBYDDION LLEOL

Tal-y-bont:

Myfanwy James, Bryn Eglur, Tal-y-bont
832592

Parsel Henllys:

Rhys Huws, Llwyn Onn
832076

Bont-goch:

Cathryn Lloyd-Williams
cat_yfoel@hotmail.com

Llangynfelyn:

Nigel Callaghan, Hafan, Tre Taliesin
832573

Eglwys-fach/Ffwrnais:

Non Griffiths
(01654) 781264

Rhwydweithiau cymdeithasol:

Ceri Morgan

CYMDEITHAS PAPUR PAWB

Cadeirydd:

Catrin MS Davies, Simne Wen, Tal-y-bont
832697

Is-gadeirydd:

Lisa Tomos, Awelon, Pentrebach
832773

Ysgrifennydd:

Rhian Evans, Glanrafon, Tal-y-bont
832344

Trysorydd:

Rebecca Williams, Mur Mawr, Tal-y-bont
832093

Tanysgrifiadau:

Bleddyn Huws, Henllan, Tal-y-bont
832448

Hysbysebion:

Trish Huws, Llwyn-Onn, Tal-y-bont

Dylunio:

Iolo ap Gwynn, Ceri Jones, Sion Pennant

Plygu'r Papur:

Gwenllian Parry-Jones; Beti Jenkins

Dosbarthwyr:

Gwenllian Parry-Jones; Carys Briddon;
John Evans; Innes Heron

*Cyhoeddwyd gan
Gymdeithas Papur Pawb.
Ariennir yn rhannol gan
Lywodraeth Cymru.*

CYMRAG

am yr holl wybodaeth am Papur Pawb ewch at ein gwefan...
www.papurpawb.cymru
hefyd dilynwch ni ar drydar a gwpeplyfr (@papurpawb)

Golygyddion

Golygydd y rhifyn hwn oedd
Menna Morgan gyda Ceri Jones
yn dylunio. Diolch iddynt.

Llio (lliorhys@yahoo.co.uk)
a Cathryn

(cat_yfoel@hotmail.com)
fydd yn golygu rhifyn Chwefror.

Y dyddiad cau yw 3 Chwefror
a bydd y papur ar werth ar
10 Chwefror.



Cyngor Cymuned Llangynfelyn

Cymorthdaliadau

Gwahoddir ceisiadau am gymorth ariannol oddi wrth
Gymdeithasau a mudiadau gwirfoddol lleol. Dylid anfon ceisiadau
ynghyd â chopi o'r fantolen ddiweddaraf at:

cyngorllangynfelync-council@hotmail.co.uk
Y Clerc, Cyngor Cymuned Llangynfelyn, Ynystudor, Tre'r-ddol,
Machynlleth, Powys, SY20 8PL.

Erbyn diwedd Ionawr 2023 fan bellaf.

Y LLEW GWYN Tal-y-bont

Mae Gareth, Bev a Carl yn edrych ymlaen i'ch croesawu i'r Gwyn.

Ar agor bob dydd

Bwyd ar gael 7 diwrnod yr wythnos

Cinio Dydd Sul 12.00 tan 3.00
(Un cwrs: £9.95 Dau gwrs £11.95)

Ystafelloedd ar gael

01970 832245
garethwhitelion@outlook.com



Os am gynnwys manylion am weithgareddau eich mudiad neu'ch
sefydliad yn nyddiadur y mis, dylech anfon y manylion llawn at Carys
Briddon, carysbriddon@btinternet.com 01970 832478 o leiaf ddeng
niwrnod cyn y rhifyn nesaf o Papur Pawb.

Dyddiadur

IONAWR

- 15 **Bethel** 10 Oedfa Deuluol, David Jones
Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach 9.30
Ffilmiau Laurel a Hardy 5.30–7.30 Cletwr
- 16 **Merched y Wawr Tal-y-bont a'r Cylch** 'Rownd a Rownd' (Dulcie James)
Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol Neuadd Llanfach 7.30 Llanfach
- 18 **'Sut i arbed ynni'** 7–8.30 Ystafell Haearn, Eglwysfach
- 19 **Pilates** 10 Ystafell Haearn, Eglwysfach
Yoga 6–7.30 Ystafell Haearn, Eglwysfach
- 20 **Cwis** 8 Wildfowler
Gwilym Morus-Baird 7.30–9 Cletwr
- 21 **Dal ati** 10.30–11.30 Cletwr
- 22 **Bethel** 10 Geraint Evans
Rehoboth 10 Oedfa'r Ofalaeth
Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach 9.30
- 23 **'Doctor Digi'** 10–11.30 Cletwr
- 26 **Pilates** 10 Ystafell Haearn, Eglwysfach
Yoga 6–7.30 Ystafell Haearn, Eglwysfach
Bingo 7.30 Wildfowler
Sgwrs 'Cyfrif y Pili palod' 7.30–9 Cletwr
- 29 **Bethel** 10 Uno à Seion, Wyn Morris
Rehoboth 2 Wyn Morris
Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach 9.30

CHWEFROR

- 2 **Pilates** 10 Ystafell Haearn, Eglwysfach
Yoga 6–7.30 Ystafell Haearn, Eglwysfach
'Cerrig Milltir 10 Mlynedd' (Julie Brominicks) 7.30–9 Cletwr
- 3 **Cwis** 8 Wildfowler
- 4 **Dal ati** 10.30–11.30 Cletwr
- 5 **Bethel** 10 Uno à Seion, Gwilym Tudur
Rehoboth 2 Gweinidog
Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach 9.30
Eglwys Llangynfelyn yn Llanfach 2 Cymun Bendigaidd
Eglwys Sant Pedr, Elerch 2.30 Cymun Bendigaidd
- 6 **'Doctor Digi'** 10–11.30 Cletwr
- 8 **Cyfarfod Blynyddol Neuadd Goffa Tal-y-bont** 7.30
- 9 **Pilates** 10 Ystafell Haearn, Eglwysfach
Yoga 6–7.30 Ystafell Haearn, Eglwysfach
Bingo 7.30 Wildfowler
- 12 **Bethel** 10 Gwilym Tudur (C)
Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach 9.30
- 18 **Noson Bingo** 7.30 Neuadd Goffa Tal-y-bont

Cletwr

Dydd Llun 2.30–4.30 'Pwyth a Chlonc'

Dydd Mawrth 1–4 'Clonc a Gweu'

Pobl a Phethe



Canu Calennig

'Blwyddyn Newydd Dda i chi' oedd cyfarchiad Mari, Elsi, Ieuan a Magw fore dydd Calan i Enid Gruffudd, Bryngwyn, Tal-y-bont. Braff gweld yr hen draddodiad yn parhau.



Casglu calennig gyda Mrs Ann Jenkins, Llety'r Bugail. Diolch, blant, am fynd o ddrws i ddrws i gyfarch rhai o drigolion yr ardal.

Ennill Cwpan

Llongyfarchiadau i Geraint Jenkins, Cerrigcaranau ar ei lwyddiant mewn sioe ac arwerthiant gwartheg godro yn Amwythig yn ddiweddar. Cipiodd buwch odro o Fuches Caran Gwpan Bryan Challenor yn y sioe.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â Nia a Deulwyn Evans, Llwynsgubor Wen, yn dilyn marwolaeth tad Deulwyn yn ddiweddar. Cofiw'n at Glenys ym Machynlleth hefyd.

Cydymdeimlwn â theulu Tony Allenby, 15 Dôl Pistyll, Tal-y-bont, yn dilyn ei farwolaeth ar 11 Rhagfyr.

Dathlu'r Wyl yn Eglwysfach

Eleni eto, cafwyd gwasanaeth Nadolig yn Eglwys Sant Mihangel yng ngolau kannwyll, ar brynhawn Sul 18fed o Ragfyr. Gwelwyd yr eglwys yn llawn a hyfryd oedd yr awyrgylch o dan ofal y Parchedig Nicholas Bee a Gary Taverner. Diolch i bawb a gymerodd ran drwy berfformiadau a darlleniadau, ac yn enwedig i'r wardeiniaid diwyd am baratoi'r rhaglen. Yn rheolaidd, gwahoddir pawb gan Gareth ac Amelia i Westy Ynyshir, i fwynhau gwin cynnes a mins peis. 'Rydym yn ddiolchgar iddynt am eu caredigrwydd, ac yn sicr roedd yn diweddu noson i'w chofio.

Cyngerdd Nadolig a Ffair Grefftau Cylch Meithrin Tal-y-bont



Ar ôl dwy flynedd o fethu â chynnal Cyngerdd Nadolig braff oedd bod yn ôl yn y Neuadd Goffa unwaith eto ar 12 Rhagfyr. Roedd y plant wrth eu boddau yn perfformio ac yn canu.

Dymunwn ddiolch yn fawr iawn i'r holl staff a chynorthwyr ar y noson. Braff oedd gweld cymaint o bobl yn prynu anrhegion Nadolig ac yn mwynhau mins peis a phaned. Llwyddwyd i godi swm da o arian a fydd yn mynd yn ôl i brynu adnoddau i'r Cylch. Noson arbennig!

Ysbyty

Dymunwn yn dda i Tegwen Nutting, Bwlch Grisiau, Tal-y-bont, ar ôl treulio cyfnod ym Mronglais cyn symud i Ysbyty Tregaron.

Pen-blwyddi

Pob dymuniad da i Juliet Regan, Free Trade Hall, Taliesin, a ddatlodd ben-blwydd arbennig ar 27 Rhagfyr.

Dymuniadau gorau i Cynrig Williams, Neuadd Bryn Glas, Bontgoch, sydd hefyd yn dathlu pen-blwydd arbennig.

Gwellhad Buan

Dymuniadau gorau am wellhad buan i Gwilym Jenkins, Llety'r Bugail, sydd wedi bod yn Ysbyty Bronglais dros yr Wyl. Gobeithio eich bod yn cryfhau erbyn hyn, Gwilym.

O Dal-y-bont i Wlad Belg

Daeth llwyddiant unwaith eto i Dewi Jenkins, Tyngraig, yn arwerthiant cŵn defaid enwog Skipton. Gwerthwyd Mwnt Pip am y pris uchaf, sef £7000, a chartref newydd yr ast ifanc fydd Zwevezele yng Ngwlad Belg.

Sam a'i arwr

Brawf oedd gweld Sam Ebenezer, Maes y Felin, Tal-y-bont ar y rhaglen "Canu Gyda fy Arwr" ar S4C yn ddiweddar. Cafodd Sam y cyfle i ganu gyda'i arwr - Huw Chiswell - a gwelwyd y ddau yn perfformio deuawd o'r gân 'Y Cwm' ar gwch gyda'r nos, ar y Tafwys!

Genedigaethau

Llongyfarchiadau i Elisabeth James, Cwmudw, Tal-y-bont ar enedigaeth wyl bach arall - mab bach i Eleri ac Owen Jewell, Llangwryfon. Pob dymuniad da i'r teulu.

Pob dymuniad da i Glyn Ovens a'i wraig Lucy ar enedigaeth merch fach o'r enw Fforest, draw ym Mhortiugal. Wyres arall i Ann Ovens, Tan-y-cae, Tal-y-bont.

Llongyfarchiadau i Richard a Stephanie Morgan, Maesnewydd, Tal-y-bont, ar ddod yn dad-cu a mam-gu i wyl bach, mab i Eleri, a anwyd yng Nghaerdydd ddiweddd Rhagfyr.

Llythyr

Annwyl Olygydd,

Hoffem ddechrau gan ddymuno Blwyddyn Newydd Dda ac iach i holl ddarlennwyr Papur Pawb ynghyd â'r gymuned leol yn gyffredinol.

Dros gyfnod estynedig sydd wedi gweld sawl her ac anffawd sylweddol hoffem ddiolch o galon i'r pwyllgorau a'r unigolion fu'n gyfrifol am y coed a'r goleuadau Nadoligaidd a ddarparwyd yn Nhal-y-bont dros gyfnod yr Wyl. Roeddent wir yn donig ac yn amlygiad gweledol iawn o ffydd, gobaith a chariad sy'n elfennau mor bwysig i ddal yn dynn iawn iddynt ar sail barhaus.

*Yn gywir iawn,
Teulu Jones, Tŷ Ni, Tal-y-bont*



Santa ar Streic!



Santa ar Streic!



Y mecanic



Y Wal Goch



Y plant yn gwisgo'u hetiau parti



Mwynhau gweithgareddau Ray Ceredigion



Arwresau'r gegin! Mrs Jones, Mrs James a Nataile



Enillwyr tocymau y Scarlets



Leah ar y piano



Mari'n chwarae'r fflwt



Cinio Nadolig

Ysgol Tal-y-bont

Panto Nadolig

Roedd yna newyddion syfrdanol ar ddechrau mis Rhagfyr. Roedd Siôn Corn wedi cael llond bol, ond nid llond bol o fins peis, ond llond bol o blant yn gofyn am hyn a'r llall ac arall. A dweud y gwir, roedd hi bron iawn yn argyfwng, ac roedd pethau mor ddrwg fel bod Siôn Corn yn bygwth mynd ar streic!

Ond gyda help ei ffrindiau ym Mhegwn y Gogledd a help ffrindiau ar draws y byd, gan gynnwys Dafydd Iwan a'r Wal Goch, fe lwyddodd plant Ysgol Tal-y-bont i berswadio Siôn Corn i newid ei feddwl. Ond roedd sawl tro trwstan ar y ffordd ac roedd angen tipyn o groesi bysedd yn fawr.

Hoffwn i ddiolch yn fawr i Mrs Rhys am gydlynu'r perfformiad, i'r holl staff am eu gwaith yn paratoi'r plant mor arbennig ac i rieni hefyd am gynorthwyo gyda dysgu'r geiriau, y caneuon a'r gwisgoedd. Roedd sawl un o'r gynulleidfa wedi nodi fod y perfformiad yn un uchelgeisiol, a phob clod i'r plant am ddysgu eu darnau mor arbennig ac am eu perfformiadau cofiadwy. Roedd y Neuadd Goffa'n llawn dop unwaith eto o rieni, ffrindiau a chyn ddisgyblion wedi dod i gefnogi'r ysgol ac i weld y plant yn actio, yn canu ac yn perfformio. Diolch yn fawr i chi gyd am eich cefnogaeth. Diolch i Mr David Jones, Bwlchdyddwyallt am helpu gyda'r sain a'r goleuo, i Mr Ieuan Morgan a Phwyllgor y Neuadd am bob cymorth yn arwain at noson y perfformiad ac i Arvid Parry Jones am y lluniau gwych. Diolch o galon i'r noddwyr niferus am yr holl wobrau raffl a llongyfarchiadau mawr i bawb a enillodd wobr (canlyniadau isod).

Gwobr yn rhoddedig gan

Enillwyr

Hamper Nadolig / Cletwr.....	Cath Lloyd-Williams
MOT / Garej Davmor.....	Rhodri Lloyd-Williams
Tocynnau Scarlets.....	Gerwyn Jones
Hamper Siocledi a Gwin / Siop Tal-y-bont.....	Laura Harding
Pecyn Adnoddau / Atebol.....	Cath Lloyd-Williams
Tocynnau Sinema / Libanus 1877.....	Nela Haf
Pecyn o Lyfrau / Y Lolfa.....	Jac Curran
Hamper / Garej a Siop Tŷ Mawr, Penrhyn-coch.....	Ann Ovens
Mwclis Pluen Eira / Jewellery House.....	Leo Howard
Cerdyn Rhodd / Llyfrgell Machynlleth.....	Martha Davies
Pecyn Coginio / Cletwr.....	Jules Haddon
Prosecco a Bisgedi / Holly a'r teulu.....	Roger Morel
Llyfr Nigel Owens / Y Lolfa.....	Pip Dutch
Siocledi / Llew Gwyn, Tal-y-bont.....	Paul a Maggie
Blodyn / Canolfan Arddio Newmans.....	Aled James
Gwin / Siop Penrhyn-coch.....	Jeff Foster
Siocledi / Cath Lloyd-Williams.....	Richy Lewis
Gwin / Kate & James January-McCann.....	Daniel Morgan
Llyfr / Comisiwn Brenhinol.....	Thérèse Woodling
Siocledi / Teulu Glanaber.....	Jules Haddon

Parti Nadolig

Cafwyd dathliad i'w gofio ar ôl ein panto wrth gynnal parti yn yr ysgol i ddweud diolch wrth y plant am eu gwaith. Diolch yn fawr i staff y gegin am baratoi'r bwyd blasus ac i Joab Hustings am yr offer disgo gan gynnwys y peiriant mwg a'r peiriant swigod oedd yn ofnadwy o boblogaidd!

Cinio Nadolig a Ray Ceredigion

Mae unrhyw ymwelydd sy'n ffodus o gael cinio yn Ysgol Tal-y-bont yn sicr o ganmol y bwyd sydd ar gael yma ac roedd blasu cinio ardderchog Mrs Jones a Natalie yn ein hatgoffa unwaith eto pa mor ffodus ydym ni yma yn Ysgol Tal-y-bont. Mae'r prydau bwyd o'r safon uchaf bob dydd a'r plant wrth eu

boddau'n bwyta llond eu boliau. Roedd hi'n hyfryd gallu croesawu Mrs Myfanwy James 'nôl i'r ysgol ar y diwrnod hefyd.

Ar ôl cinio daeth Ray Ceredigion atom i gynnal sesiwn o greu gwrthrychau gwahanol ac amrywiol gan ddefnyddio gwastraff a deunydd ailgylchu. Roedd hi'n bleser gweld plant o bob oed yn helpu ei gilydd wrth ddefnyddio pob milimetr o'r iard i greu a chwarae mor naturiol. Rydym yn edrych ymlaen yn fawr at groesawu Ray Ceredigion atom eto yn y Gwanwyn.

Sinema

Mae plant yr ysgol yn ffodus iawn o gael mynd i weld ffilm yn Sinema'r Commodore yn Aberystwyth yn flynyddol diolch i haelioni'r Gymdeithas Rieni ac Athrawon. Eleni y ffilm oedd Sing 2 ac fe gafodd pawb amser da wrth chwerthin ar gampau'r cymeriadau doniol.

Siwmperi Nadolig

Mae gwisgo ein siwmperi Nadolig yn draddodiad sydd wedi cydio yr adeg yma o'r flwyddyn. Cawsom dipyn o hwyl eleni eto yn cymharu gwahanol siwmperi y plant a'r staff! Roedd sawl un diddorol iawn yn eu plith a nifer o rai doniol iawn hefyd. Ond prif bwrpas eu gwisgo oedd codi arian i elusen Achub y Plant, diolch yn fawr am eich cyfraniadau hael wrth gefnogi'r elusen yma.

Gwasanaeth Cymunedol Merched y Wawr

Roedd hi'n bleser gweld plant o'r ysgol yn rhan o wasanaeth carolau cymunedol Merched y Wawr Tal-y-bont a'r Cylch eleni eto. Roedd hi'n noson hyfryd yng Nghapel Bethel gyda gwahanol fudiadau'r ardal yn cyfrannu eitemau gwahanol. Diolch yn fawr i'r parti am ganu mor swynol dan ofal Miss Roberts ac i Mrs Jenkins am gyfeilio.

Prynhawn Perfformio

Oherwydd bod cymaint o blant yn derbyn gwersi offerynnol yn yr ysgol ac yn breifat ar hyn o bryd, rydym wedi dechrau traddodiad newydd o gynnal cyfleoedd iddyn nhw berfformio o flaen eu ffrindiau. Dyma'r tro cyntaf i nifer o'r plant chwarae'n gyhoeddus ac fe gafwyd sawl datganiad cofiadwy. Diolch yn fawr i chi gyd.

Clwb Rygbi'r Scarlets

Bob hyn a hyn mae'r ysgol yn ffodus o gael tocynnau i weld y Scarlets yn chwarae ac fel y gwelwch o'r llun, roedd y bechgyn yma'n falch iawn bod eu henwau wedi eu tynnu o'r het y tro yma!

Ffotograffiaeth

Ar ddechrau Tymor yr Hydref, penderfynodd dosbarth Blwyddyn 6 gynnal cystadleuaeth ffotograffiaeth ar y themâu, Golygfa, Hylif ac Anifeiliaid. Llongyfarchiadau i Martha, Rosie ac Ariana am ennill eich categori.

Cydymdeimlad

Hoffwn estyn ein cydymdeimlad dwysaf gyda Rhian Evans a'r teulu ar ôl eu profedigaeth diweddar.



Teyrnged

Beryl a Dyfed Evans

(Detholiad o'r deyrnged a roddwyd gan Rhian yn y gwasanaeth yn Amlosgfa Aberystwyth ar 20 Rhagfyr)

Does dim geiriau am anferthedd colli'r ddau'r un pryd. Cafodd Mam fynd yn sydyn, ond cafodd wneud hynny yng Nghwm Ceulan, lle a olygai'r cyfan iddi. Bywyd a ddiweddwyd yn drasig cyn pryd oedd un Dyfed. Fe fues i a Dyfed yn lwcus mewn cael Mam arbennig gan adlewyrchu rhyngom bob agwedd ohoni. Fel hi, roeddem â theimlad cryf o berthyn i le ac i bobl ac fel y ddafad fynydd yn cadw at ein cynefin. Roedd yn ddynes ddeallus, wedi ei thrwytho yn y pethe. Mynychodd Gapel Bethel a'r holl weithgareddau cysylltiedig bob nos o'r wythnos bron yn y pumdegau a'r chwedegau. Cyfeiriai'n aml at gwmniaeth dyddiau Aelwyd Glannau Eleri ac ymfalchiai yn yr hyn a gyflawnodd fel Ysgrifennydd Cymdeithas Ddiwylliadol Undebol Tal-y-bont.

Ni fwynhaodd ddyddiau Ysgol Ramadeg Ardwyn ond roedd un eithriad sef y gwersi Cymraeg a'r cyfle i ysgrifennu'n greadigol yn ei llawysgrifen italg hardd. Meddai ar ddawn i ysgrifennu'n raenus ac yn reddfol wrth y glust a bu'n barddoni tipyn yn ystod ei hieuenctid. Roedd wrth ei bodd yn cael cyd-olygu *Papur Pawb* unwaith y flwyddyn ac yn angerddol am y Gymraeg. Llenwai bob ffurflen a llyfr yn ymwneud â'r ffarm yn y Gymraeg. Ysgrifennodd hi erioed siec Saesneg. Dwi'n cofio ni'n mynd i siopa bwyd a Mam yn talu yn ôl ei harfer gyda siec Gymraeg a'r ddynes tu ôl i'r til yn ei gwrthod. Wel dyma bregeth gan holi i chwilio am aelod o staff i wirio'r cynnwys ond doedd dim yn un medru'r iaith. Gofynnwyd iddi ysgrifennu siec Saesneg a gwrthododd ar egwyddor.

Profodd gyfnodau anodd a'i gwnaeth hi'n hynod annibynnol. Collodd ei thad ei iechyd pan oedd yn ei hugeiniau a bwriodd ati ar ben ei hun i ffermio mewn byd heriol, llawn dynion. Roedd Dad a Mam gyda'i gilydd ers dros hanner canrif ac wedi cynnal ffermydd ar wahân am ddegawdau er iddynt gyd-weithio'n agos a Mam er enghraifft yn gwerthu ar ran Dad gan ei fod yn daer ei bod yn llwyddo i gael y pris gorau. Dau weithiwr caled a gadwodd fynd trwy gyfnodau hir o salwch. Mam oedd y bos a ddywedai fel oedd pethe i fod, er bod Dad erioed wedi rhoi fewn yn llwyr i hynny na dim un o'i phlant!

Dyfed oedd y brawd bach ac yn sgil prysurdeb Mam a Dad treulion ni ran helaeth o'n plentyndod yn diddanu ein hunain. Mewn seli anifeiliaid, eistedd yn y Land Rover, chwarae gyda chŵn a chathod a reidio beics. Roedd chwilio lleoliad ar gyfer den ar ddechrau gwyliau'r haf yn orchwyl bwysig. Byddai Dyfed yn brysur, fel gyda phob tasg, yn paratoi'n ofalus. Fi fyddai'n adeiladu gyda mwy o angerdd na sgil. Pan fyddwn i'n holi am lif at ryw dasg gwrthodai Dyfed roi'r stwff gorau gan ddweud 'ti ddim yn saff i ga'l rhywbeth drud!' Dyddiau'r dens oedd yn dod i'r cof.

Anifeiliaid oedd ei fyd ac yn ei arddegau bu'n magu pob math o bethau. Magu hamsters a'u gwerthu i'r Siop Anifeiliaid Anwes yn Nhrefechan gan hela Mam yn wyllt gyda'r rhesi cages yn y tŷ a siart manwl yn nodi pryd y byddai rhai bach yn cyrraedd. Ieir a chwingod wedyn a Mam yn ei yrru i Landeilo i brynu a gwerthu.

Roedd ganddo ddiddordeb angerddol yn hynt a helynt y byd. Byddai byth yn methu *Question Time* a *Newsnight* a dilynai newyddion o bob math ar y cyfryngau cymdeithasol. Roedd hefyd wrth ei fodd gyda chwaraeon. Yn nyddiau Ysgol Tal-y-bont, snwcer oedd y cyfan a'i arwr mawr oedd Stephen Hendry. Pêl droed yn ddiweddarach, a ni'n dau yn dilyn Man U. Pan fyddai yn y tractor, Radio 5 Live fyddai ymlaen a sylwebaeth fyw o ryw gamp neu'i gilydd. Byddai yn trysori am byth ein trip i'r Olympics yn 2012 ac yntau wedi sicrhau tocynnau i ni yn y stadiwm ar 'Super Saturday'. Dyfed wrth ei fodd yn yr awyrgylch trydanol yn neidio ac yn gweiddi am y gorau gyda'r dorf.

Ers gadael ysgol bu'n ffermio gyda Mam ac roedd dealltwriaeth naturiol rhyngddynt er bod dau mor debyg yn clasio'n aml. Yn raddol daeth i ysgwyddo'r gwaith ymarferol gyda Mam yng ngofal y gwaith papur a'r dreifio! Roedd wrth ei bodd yn mynd yn y Land Rover neu'r

Pick-up yn cario llwyth o ddefaid neu Big Bales gan ddangos ei gallu diarhebol am reverso mewn llyfdd anodd.

Defaid oedd eu cariad cyntaf, yn arbennig y ddafad fynydd Gymreig a'r ddafad Benfrith yn ail agos. Deuent yn fyw wrth drafod dafad yn enwedig Dyfed adeg seli hyrddod. Dywedai'r ddau fod defaid yn neisiach na

phobl! Eu dileit oedd gwario ar hyrddod. Gambl llwyr ond roedd hwyl yn yr ymdrech. Roedd gan Dyfed gof anhygoel am fanylion, yn arbennig llinach prif ddiadelloedd y Defaid Mynydd. Gallai restrî'r prif hyrddod a werthwyd, eu prisiau a phwy oedd wedi eu prynu gan siarad ar y pwnc am oriau gyda'r rheiny oedd yn gwirioni'r un fath.

Dau fridiwr wrth reddf ac uchel eu parch, gydag angerdd am fagu stoc o safon. Meddai'r ddau ar lygad dda na ellir ei brynu ac arferai Mam ddweud 'pam mynd i'r drafferth o weithio'n galed i fagu rhywbeth sâl a hyll!' Mam oedd Cadeiryddes gyntaf y Gymdeithas Defaid Mynydd Cymreig ac fe'i gwnaed yn aelod oes o Gymdeithas y Defaid Penfrith. Mam ddaeth â choron driphlyg Cymdeithas Defaid Mynydd Cymreig i Geredigion am y tro cyntaf yn 1988 pan gipiodd y prif wobrau yn y gystadleuaeth ddiadelloedd. Ennill Cwpan Coffa Pierce Owen am y ddiadell orau yn y pum sir a thariannau am y defaid benyw a'r hesbinod gorau ac am y tro cyntaf gan ferch. Bu'r ddau yn beirniadu tipyn yn cynnwys y Defaid Mynydd Cymreig yn y Sioe Frenhinol a chafodd Mam y fraint o feirniadu'r Defaid Penfrith yno hefyd. Roedden nhw'n hynod ofalgar yn arbennig adeg wyna gan geisio cadw pob dim yn fyw, o'r oen bach lleia' i un yn cario nam. Fe fyddai i a Dad yn gweld eu heisiau bob dydd a bydd Glanrafon fyth yr un fath. Mae eu gwaddol a'u heneidiau yno sy'n gysur ac yn gyllell trwy'r galon ar yr un pryd.



OUT OF OFFICE STUDIO

ADEILADAU NEWYDD | ESTYNIADAU | TRAWSNEWIDAU | DATBLYGU TIR

CYFEIRIAD

Out Of Office Studio LLP
4 Cambrian Terrace
SY20 8TR

FFON

+ 44 7984399315

AR-LEIN

office@o-o-studio.com
www.outofficestudio.co.uk

arb
Architects
Registration
Board

Grant Mayhew Ltd

GWAITH COED, TO ac ADEILADU CYFFREDINOL

01970 832772 / 07846 255881

grantmayhewltd@yahoo.co.uk



Rhai o blant Wcráin wedi derbyn bocsys Nadolig gan blant Ysgol Tal-y-bont. Rhodduwyd bocsys i filwyr ac anifeiliaid hefyd. (Llun: Jenny Jenkins)

O Geredigion i Wcráin

Wrth i ymosodiadau lluoedd Rwsia ar isadeiledd Wcráin barhau, mae miliynau o bobl y wlad yn dal i fod heb fwyd, dŵr, nwyddau hanfodol a thrydan. Yma yng Nghymru mae'r gwaith o gasglu nwyddau dyngarol hefyd yn parhau ac mae Jenny Jenkins, sy'n dod o Dal-y-bont yn wreiddiol, wedi bod yn weithgar iawn dros y misoedd diwethaf yn gwirfoddoli i elusen Ukraine Train.



Jenny Jenkins a cherbydau elusen Ukraine Train (Llun: Jenny Jenkins)

Ychydig cyn y Nadolig, aeth Jenny draw i Wlad Pwyl gyda llond fan o nwyddau dyngarol. Teithiodd mewn confoi o ddeg tryc yn llawn bwyd, cyflenwadau meddygol, blancedi, dillad cynnes a nwyddau i fabis yn ogystal â bocsys Nadolig. "Roedd tua 300 bocsys Nadolig gyda ni," meddai Jenny. "Roedden ni wedi casglu pethau fel teganau a thedis i'r plant a neud bocsys iddyn nhw, y milwyr ac anifeiliaid."

Mewn apêl am gymorth rhyngwladol ddechrau Rhagfyr, dywedodd Volodymyr Zelenskyy, Arlywydd Wcráin, bod cael generaduron (*generators*) yr un mor bwysig â chael arfwisg wrth helpu'r Wcráin i oroesi ymosodiadau Vladimir Putin y gaef hwn. "Rydyn ni'n gwybod pa mor bwysig yw hi i gael generaduron mas yna cyn gynted â phosib," meddai Jenny. "Mae galw mawr amdany'n nhw achos does dim trydan na dim yna. Mae'r rhan fwyaf o'r pwerdai sydd gyda nhw yn cael eu difrodi neu eu dinistrio gan y bomio!" Yn y tryc y teithiodd Jenny ynddo, roedd dau generadur a fydd o ddefnydd mawr i bobl y wlad. Gan fod ysbytai yn enwedig angen cyflenwad sefydlog o drydan, aeth y generadur mawr oedd ganddyn nhw i ysbyty mewn dinas sydd wedi cael ei meddiannu gan Rwsia ers 8 mis. Maen nhw'n gobeithio y bydd y generaduron eraill yn gallu cael eu defnyddio mewn canolfannau iechyd tebyg ac wrth ailadeiladu.

Nid dyma'r tro cyntaf i Jenny fentro teithio draw i gyrion Wcráin i helpu. Hon oedd y seithfed daith iddi ei gwneud ers cynnig bod yn un o yrwyr gwirfoddol Ukraine Train. Nid ar chwarae bach mae rhywun yn gyrru'r holl ffordd yno ac yn ôl felly beth sydd wedi ysgogi Jenny i wneud sawl taith gron o tua 2,000 o filltiroedd? Mae'n cyfaddef mai gweld y golygfeydd o'r ffoaduriaid wnaeth ei chymell i wneud popeth o fewn ei gallu i'w helpu. "Ar y dechrau," meddai "roeddwn i'n gweld adroddiadau yn dod o'r wasg o Wcráin a gweld beth oedd yn digwydd i rai teuluoedd, gweld ffoaduriaid yn stryglan i adael yr ymladd. Dyna beth sydd wedi hala fi i neud beth fi'n neud achos 'sdim byd o gwbl gyda nhw."

Mae'n dda deall bod Jenny a'r criw wedi derbyn cefnogaeth arbennig gan drigolion yr ardal a thu hwnt ac mae'n ddiolchgar iawn am hynny. Derbyniodd ei hapêl am focsys Nadolig, er enghraifft, ymateb aruthrol. "Fe ddaeth parseli aton ni o ardal Amwythig a rhannau eraill o Loegr, jyst i'w helpu nhw. Dwi ddim yn gwybod sut fath o Nadolig gawson nhw. Dim ond cael rhywbeth i'w fwyta a bod yn gynnes - dyna i gyd maen nhw'n gobeithio amdano ar y funud. Mae pobl wedi bod yn hael iawn a dwi'n gobeithio bydd hynna'n helpu rhai o'r bobl mas yn Wcráin."

Os hoffech chi wybod mwy am yr elusen a'r ymdrechion yn lleol i gasglu a chludo nwyddau i Wcráin ewch i:
<https://www.ukrainetrain.org.uk/> a
<https://en-gb.facebook.com/PenparcauCommunityForum/>



Cinio Nadolig yr Henoed



Cynhaliwyd cinio Nadolig i'r rhai dros 60 oed ym mhlwyf Llangynfelyn yn y Wildfowler ar ddydd Sadwrn, 17 Rhagfyr, ac roedd pawb wedi mwynhau'r achlysur. Diolch i aelodau'r pwyllgor a fu'n trefnu ac i'r Wildfowler am y wledd.

Cymdeithas y Chwiorydd Rehoboth

Daeth yr aelodau ynghyd i festri Rehoboth, Tre-Taliesin, ar brynhawn Mawrth, 13 Rhagfyr, pan groesawyd Mair Nutting, Tal-y-bont, i'r cyfarfod i ddangos ffilm a wnaed ganddi yn gynharach eleni am y diwydiant gwlan yn yr ardal hon. Gan fod mudiad Merched y Wawr yng Ngheredigion yn bwriadu creu ffilm ar y thema 'Gwlan, Gwlan, Gwlan' er mwyn ei dangos yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru yn Nhregaron

ym mis Awst, cafodd Mair ei symbylu i ffilmio rhai o aelodau cangen Tal-y-bont a'r Cylch o Ferched y Wawr yn sôn am y gweithgarwch a fu, a hefyd sy'n dal i fodoli, yn yr ardal yma ynglŷn â'r diwydiant gwlan er mwyn cyfrannu i'r ffilm. Ar ôl gweld y ffilm buom yn rhannu atgofion am y dillad a'r ffatrioedd a fu yn Nhal-y-bont a'r ardal ers talwm, a'r cyfan yn ychwanegu at fwynhad y prynhawn. Diolchwyr yn gynnes i Mair am greu'r ffilm sy'n gofnod hanesyddol gwerth ei gofnodi am y diwydiant gwlan, ac yna mwynhawyd paned o de, mins peis a chacen Nadolig wedi eu paratoi gan Eiriona Metcalfe a Carys Briddon.



Neuadd Llanfach

Cynhelir Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol Pwyllgor Rheoli Neuadd Llanfach am 7.30yh ar nos Lun, 16 Ionawr. Mae croeso i drigolion cymuned Llangynfelyn a'r cyhoedd i fynychu a phleidleisio. Bydd y cyfarfod yn adolygu adroddiadau'r Cadeirydd a Chyllid am y flwyddyn, a bydd swyddogion ac aelodau'r pwyllgor am y flwyddyn i ddod yn cael eu hethol. Bydd Agenda llawn ar gael cyn y cyfarfod.

David Wyn Griffiths

01970 832 446 / 0785285821 / wyn.griff@icloud.com

Clwb Ieuenctid Tal-y-bont



Creu torchau Nadolig yn y neuadd

Mae wedi bod yn dymor prysur i Glwb Ieuenctid Talybont ers ailagor ym mis Medi 2022. Croesawyd nifer o aelodau newydd a braf oedd gweld yr hen rai yn dychwelyd.

Rydym wedi bod yn ffodus iawn i dderbyn tri grant i gefnogi gweithgareddau a chostau rhedeg y clwb eleni. Diolch i CAVO a Chlybiau Bechgyn a Merched Cymru. Hyd yma, rydym wedi cynnal gweithdy creu torchau Nadolig, gweithgareddau coginio wythnosol a thaith i sinema Libanus 1877 cyn y Nadolig.

Yn y flwyddyn newydd, rydym yn edrych ymlaen at gynnal sesiynau hyfforddi pêl-droed, peinto crochenwaith ynghyd â gweithgareddau arferol.

Os oes gennych ddi-ddordeb i wirfoddoli, gwneud cyfraniad neu eisiau cefnogi'r clwb mewn unrhyw ffordd, mae croeso i chi gysylltu â Lowri ar 07730667126, neu danfonwch neges i dudalen Facebook y Clwb sef, Clwb Ieuenctid Talybont Youth Club.



Trip Nadolig i Sinema Libanus

Goleuadau Nadolig Tal-y-bont

Gobeithio bod pawb sydd wedi pasio drwy'r pentref ar ôl iddi nosi wedi gallu gwerthfawrogi goleuadau hyfryd y Neuadd Goffa a'r goeden Nadolig odigog ar y Patsyn Glas.

Diolch i Enoc Jenkins am drefnu ac i Tom ac Alun Davies am y gwaith gosod.



Coeden y Patsyn Glas



Cletwr

Ydy hi'n rhy hwyr i ni ddymuno "Blwyddyn Newydd Dda" i chi oll? Wel, dim ots, felly Blwyddyn Newydd iach a hapus iawn i bawb.

Beth gawn ni edrych ymlaen ato yn 2023? Wel, yn y gwanwyn, fe fydd Cletwr yn dathlu ei ben-blwydd yn DDEG oed. Anodd credu yn tydi? Wrth edrych nôl at yr hen Siop Cynfelyn fach, annwyl, a'i chymharu gyda'r megasiop bresennol, mae'n anghredadwy. Mwy o fanylion am y dathliadau yn nes at y dyddiad.

Yn y dyfodol agos, cynhelir nifer o ddigwyddiadau o ddi-ddordeb. Yn gyntaf, rhywbeth arbennig (achos rwyf i yn ei drefnu!) - nos Sul yma, 15fed o Ionawr am 17:30, noson Laurel a Hardy. Detholiad o ffilmiau byrion gan y comediwyr clasurol a bwyd i'w rannu. Mynediad am ddim, ond dewch â phlât o fwyd i'w rannu.

Wedyn, ar nos Wener yr 20fed, fe fydd y diddanwr poblogaidd Gwilym Morus-Baird gyda ni eto am noson gyfoethog a diddan o chwedleua, gyda cherddoriaeth fyw yn amrywio o ganeuon gwerin Cymraeg i lwpio byw ("live looping") - beth bynnag yw hynny!, fydd yn eich gadael chi gyda'ch calonnau'n llawn gobaith. Straeon yn Saesneg, canu yn Gymraeg. Yn addas ar gyfer 14+. Manylion a bwcio ar Facebook.

Nos Iau, 26ain o Ionawr, bydd sgwrs ar "Glöynnod Byw Ceredigion" gan Paul Taylor, cofnodydd sirol glöynnod byw Ceredigion. Mae'n dechrau am 19.30, dim angen bwcio.

Mae ein grŵp Gwau a Chlonc yn parhau pob prynhawn dydd Mawrth, rhwng 2 a 4 ac mae croeso cynnes i bawb OND, nawr, mae grŵp arall wedi cychwyn - Pwyth a Chlonc, ar gyfer pawb sy'n ffeltio gyda nodwydd. Cyfle i gwrdd, rhannu syniadau a gwybodaeth, a sgwrsio gyda ffeltwyr gyda nodwydd eraill. Byddwn ni'n cwrdd bob dydd Llun rhwng 2.30-4.15.

Am restr lawn o ddigwyddiadau yn Cletwr ewch i'n tudalen Facebook.

Gair i'ch atgoffa: bydd Innes yn trefnu archeb olew gwresogi ar y 27ain o Ionawr. Fe arbedwyd tua 5c/litr gan ein haelodau 'nôl ym mis Hydref. Gwerth chweil iawn. Os am ymuno â'r grŵp ewch i'r wefan.

Dyna ddigon am y tro, ond beth am gwpl o addunedau blwyddyn Newydd i chi? Yn gyntaf, dewch i Cletwr i siopa a chael paned bob wythnos! A dewch â ffrind. Ac yn ail, meddwl am ymuno â thîm Cletwr fel gwirfoddolwr? Welwn ni chi'n fuan ...!

Ffilmiau Laurel a Hardy
a 'Dewch â phlatiad'
15.01.2023
17.30 - 19.30

Twymwr y Gaeaf a noson gymdeithasol.
Hwyl i'r teulu cyfan fel yn yr hen ddyddiau. Am ddim.

www.cletwr.com
01970 832 113 ✉ cletwr@cletwr.com

Cletwr

Neuadd Goffa Tal-y-bont

CYFARFOD BLYNYDDOL 2023
Nos Fercher 08 Chwefror
7.30 Yn y Neuadd Waelod

Croeso cynnes i bawb

Salon Leri
Pob agwedd o drin gwallt gan Richard

10am-7pm
Llun-Guener
(01970) 832 674

Cyngor Cymuned Ysgubor y Coed

Palmant

Mae'r Cyngor yn falch o ddweud bod yr arwyddion dwyieithog a addawyd yn dangos "Dim palmant" bellach yn eu lle. Diolch yn fawr iawn i'r Cynghorydd Swanson am ei hymdrechion arwrol ar y mater hwn.

Band Eang

Rydym yn dal i aros am symudiad o Broadway Broadband ar y seilwaith sydd ei angen. Gobeithio y bydd hyn yn y dyfodol agos.

Ymylon glaswellt wedi gordyfu

Derbyniodd y Cyngor gwynion gan drigolion lleol ynglŷn â'r ymylon glaswellt sydd wedi gordyfu ar ffyrdd Bwlcheinion a Melindwr/Dynyn. Adroddwyd hyn i Gyngor Sir Ceredigion a thorrwyd yr ymylon. Mae'r Cyngor hefyd wedi nodi bod yr ymylon glaswellt ar yr A487 wedi gordyfu. Fodd bynnag, cyfrifoldeb Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru (AGCCC) yw'r rhain. Mae Cynghorydd Sir Ceredigion, Catrin Davies, wedi dweud nad yw AGCCC yn dechrau torri'r ymylon glaswellt tan 17eg Hydref bob blwyddyn, a'u bod yn dechrau'r broses ym mhen isaf Ceredigion ac yn gweithio'u ffordd i fyny.

Cyfyngiadau cyflymder 20 milltir yr awr

Ysgrifennodd ein Cynghorydd lleol, Catrin Davies, lythyr at Olygydd y Cambrian News ar 12 Hydref 2022 yn egluro ei safbwynt ar y mater hwn ac yn amlygu ein pentrefi yn ei llythyr.

Ffilmio yn Ffwrnais Dyfi

Fe wnaeth CADW hysbysu'r Cyngor am fwriad criw bychan i dddod i ffilmio rhaglen Gymraeg 'Am dro' yn Ffwrnais Dyfi ar 01 Tachwedd 2022.

Oedi ar y rhiw



Bydd angen i drigolion yr ardal adael y tŷ rai munudau yn gynt nag arfer os ydyn nhw am osgoi bod yn hwyr oherwydd y goleuadau traffig ar y rhiw yn Nhal-y-bont. Ymddangosodd y goleuadau ar 23 Rhagfyr oherwydd bod y wal gynhaliol ar ochr y ffordd yn wan. Mae'n debyg y byddan nhw yno am tua chwe mis, tan ddiwedd Mehefin!

Cinio Blynyddol a Raffl Fawr Cymdeithas Sioe Tal-y-bont



Cinio Blynyddol yng nghwmni'r Llywyddion, Dilwyn a Marion Evans, Tynant

Ar nos Wener, 2 Rhagfyr, daeth criw hwyliog ynghyd yn y Cambrian Coast Bar & Grill, Ynyslas, ar gyfer cinio blynyddol Sioe Tal-y-bont. Croesawyd pawb gan y Cadeirydd, Dilwyn Jenkins, ac estynnodd groeso arbennig i'r wraig wadd sef Elliw Dafydd o fferm Gwarffynnon, Silian. Ar ôl bwyta pryd hyfryd, cafwyd anerchiad arbennig gan Elliw am ei thaith i Uganda ac i Beriw ym mis Awst eleni. Fel rhan o Raglen Ryngwladol Ffederasiwn Cenedlaethol CFFI, treuliodd bythefnos yn y wlad yn helpu cymunedau gwledig, dysgu am arferion diwylliannol gwahanol ac ymweld â rhyfeddodau fel Machu Picchu a mynydd Vinicunca yn yr Andes. Diolchwyd yn fawr i Elliw am ei sgwrs ddifyr gan yr Is-gadeirydd, Huw Davies.

Tynnwyd Raffl Fawr Cymdeithas Sioe Tal-y-bont yn y pwyllgor a gynhaliwyd yn y Neuadd Goffa ar nos Lun, 2 Ionawr. Y prif enillwyr oedd:

1. Penwythnos ym mythynnod Gwyliau Tynrhelyg - Magw Ifan, Pantcoch, Tal-y-bont
2. £100 - Sianco John, Penbryn, Taliesin
3. £50 - Siwan Evans, Pantcoch, Tal-y-bont
4. MOT: Garej Davmor - Mair Morgan, Glyn Padarn, Llanbadarn Fawr
5. Fleece Kaiwaka: Kiwi Kit - Charlie Falzon, Gwel y Garn, Tre'r-ddôl
6. Tocyn llyfr £30: Atebol - Mair Nutting, Tyhen Henllys, Tal-y-bont
7. Hampyr £30: Cletwr - Lowri Evans, Fronddel, Dolau
8. £25 - Mr a Mrs Jenkins, Llety'r Bugail, Tal-y-bont
9. Tocyn anrheg Marchnad Bysgod Jonah - Glenys a Glen Stocks, Tynrhelyg, Tal-y-bont
10. Seddi i 2 yn Sinema Libanus - Teulu Hughes, Pencwm, Bontgoch
11. £20 - Alison Swanson, Cefn Sidan, Ffwrnais
12. £10 - Jini John, Penbryn, Taliesin

Diolch yn fawr i'r noddwyr am y gwobrau a llongyfarchiadau mawr i'r enillwyr!



Alun Davies
Contractiwr Trydanol

M 07703 169813

Islwyn, Bow Street, Ceredigion SY24 5AR
E alun.davies142@btinternet.com

Yn Naturiol

Y tro hwn mae dwy o Dal-y-bont, Kerrie Farrar, Llys Etna a Linda Denton, Felin Penpompren, yn adrodd am y cynnydd yn y defnydd o'r planhigyn 'miscanthus'. Mae Kerrie'n sôn am yr arbrofi yn IBERS a Linda am ei defnydd o'r planhigyn wrth blastro welydd.

Dyma Kerrie i ddechrau:

Mae miscanthus yn cael ei dyfu yn Ewrop fel cnwd ynni i helpu yn erbyn newid hinsawdd. Mae modd defnyddio miscanthus mewn llawer o ffyrdd – fel tanwydd carbon isel i gynhyrchu gwres ac ynni, fel gwellt ar gyfer anifeiliaid, i greu hambyrddau bwyd a siapiau eraill yn lle plastig, i gynhyrchu cemegau er enghraifft ethanol ar gyfer ceir neu xylitol yn lle siwgr, a hefyd fel deunyddiau adeiladu.

Gwair tal lluosflwydd (perennial) yw miscanthus, sy'n tyfu yn gyflym iawn drwy'r haf ac sy'n sefyll dros y gaeaf i adael i'r maetholion ddychwelyd i'r rhisom tanddaear. Mae'r biomas brown yn cael ei gynaeafu yn y gwanwyn, a gall y cnwd barhau am tua ugain mlynedd cyn bod angen ailblannu. Er bod cymaint o wahanol fathau o miscanthus, 'Miscanthus giganteus' yw enw'r un sy'n cael ei blannu fel cnwd masnachol ar hyn o bryd.

Mae ymchwilwyr Athrofa y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig (IBERS) wedi casglu gwahanol fathau o miscanthus o Siapan, Tsieina a Taiwan gan fridio mathau newydd ohono a'i ddatblygu fel y gall dyfu'n well mewn llefydd gwahanol ac ymdopi gyda newid hinsawdd. Am y tro cyntaf yn y byd, mae tri math newydd wedi datblygu i fomas yn IBERS. Yn ddiweddar rydym ni wedi dilyniannu'r 'genom', a rwan rydym ni'n defnyddio'r wybodaeth hon yn ein rhaglen fridio. Rydym wedi ennill grant sylweddol o Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS) i gymhwyso'r detholiad genomig er mwyn cyflymu'r broses.

Yr her rwan yw plannu digon i wneud gwahaniaeth!

Os hoffech chi wybod rhagor am miscanthus neu sut i'w dyfu, cyswlltwch â Kerrie Farrar: kkf@aber.ac.uk

Delweddau: Miscanthus pic Credit Patrick Laverty.jpg a Kerrie Miscanthus Pembrokeshire.jpg

a dyma Linda yn adrodd am ei defnydd hi o miscanthus:

Dros y blynyddoedd, fel rhan o'm gwaith yn plastro hen adeiladau cerrig Cymreig a byw mewn un fy hun, dechreuais ymddiddori fwyfwy mewn dulliau i greu cartrefi cynnes, cyfforddus a sych a hynny mewn ffordd gynaliadwy. Mae fy ngwaith yn canolbwyntio ar fanteision defnyddio deunyddiau sy'n gallu anadlu ac sy'n helpu lleithder i symud i mewn ac allan o waliau'r adeilad heb achosi pydredd. Tua deng mlynedd yn ôl roeddwn i'n gwybod am gywarch (hemp) yn cael ei dyfu a'i ddefnyddio yn Iwerddon i inswleiddio waliau felly es i i ffwrdd i Iwerddon i ddarganfod sut yr oedd yn cael ei wneud. Ers hynny, mae ymchwil yn IBERS wedi canolbwyntio ar fanteision miscanthus fel deunydd adeiladu felly rydw i nawr yn



Kerrie gyda Miscanthus, Sir Benfro (Llun gan David Bryant)

defnyddio cywarch a miscanthus mewn gwahanol sefyllfaoedd. Mae'r deunyddiau hyn yn gnydau adnewyddadwy sy'n lleihau ein dibyniaeth ar danwydd ffosil a gellir eu tyfu yn y DU felly mae'n gwneud synnwyr i gefnogi'r sector amaethyddol hwn.

Y dull rwy'n ei ddefnyddio i greu deunydd inswleiddio o miscanthus neu gywarch yw ei gymysgu â chalc a dŵr a'i bacio y tu ôl i strwythur caeedig. Yna, pan fydd y gorchudd yn cael ei dynnu, bydd gyad fi haenen drwchus tebyg i Weetabix a fydd yn cael ei blastro i edrych fel unrhyw wal arall, ac yn bodloni rheolau adeiladu. Mae'n broses llafurus ond yn eithaf syml i'w gwneud, felly un o'm gwasanaethau yw addysgu teuluoedd a grwpiau o bobl sut i wneud hynny eu hunain.

Y Felin Penpompren yw'r tŷ cyntaf yn Nhal-y-bont lle mae miscanthus a chywarch wedi cael eu defnyddio i inswleiddio'r waliau. Yn ogystal defnyddiais i wllan Cymreig i inswleiddio'r atig.



Linda'n plastro

James Memorials

Am
**GOFBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A
BUSNESAU**

Gofynnwch am bamffled
rhad ac am ddim

James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

Iwan Jones

Gwasanaethau Pensaernïol

Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd,
estyniadau ac addasiadau

Gellimanwydd, Talybont,
Ceredigion SY24 5HJ
helen.iwan@btinternet.com
01970 832760

STORFA HUNAN FYNEDIAD

UNEDAU STORIO DIOGEL & WEDI GWRESOGI

**MONITRO DIOGELWCH
24 AWR**

Storfa Cartref & Busnes

Bocsau a Bubblewrap

Symud gyda **Wales REMOVALS**

STORFA CANOLBARTH CYMRU

MID WALES STORAGE

Tel: 01654 703592
Heol Y Doll, Machynlleth, SY20 8BQ www.midwalesstorage.co.uk

Gwasanaeth Noswyl Nadolig Yr Ysgol Sul



Aelodau'r Ysgol Sul ar Noswyl Nadolig

Ar noswyl Nadolig, cynhaliodd plant a ffrindiau yr Ysgol Sul yng Nghapel Bethel wasanaeth traddodiadol. Roedd hi'n braf gweld y Capel yn llawn a phawb yn mwynhau eitemau amrywiol. Roedd y plant wrth eu boddau yn ymarfer a chael dod at ei gilydd i berfformio unwaith yn rhagor. Hoffem ddiolch i holl ffrindiau a rhieni plant yr Ysgol Sul a fu wrthi'n ein cynorthwyo ni wrth baratoi at y gwasanaeth a thrwy gymryd rhan ar y noson.

CFFI Tal-y-bont



Rhai o'r carolwyr yn barod i ganu!

Cafwyd mis llwyddiannus i orffen y flwyddyn wrth i Ynyr Siencyn ddod yn ail yng nghystadlaeth Barnu Wyn Cigyddion yn y Ffair Aef. Yna, cafwyd cryn hwyl yn mynd o gwmpas yr ardal yn canu carolau ar ddwy noson cyn y Nadolig. Yn rhyfeddol, casglwyd cyfanswm o £1,901.83! Diolch i'r holl aelodau a aeth o gwmpas i ganu carolau ac i'n holl ffrindiau yn y gymuned a'n cefnogodd. Bydd yr arian yn cael ei rannu rhwng Sefydliad DPJ, Banc Bwyd Aberystwyth a'r Ambiwlans Awyr. Fe wnaeth Bedwyr a Ioan hefyd gymryd rhan yng nghyngerdd Nadolig Merched y Wawr Tal-y-bont a'r Cylch. Blwyddyn Newydd Dda i bawb oddi wrth holl aelodau'r Clwb Ffermwyr Ifanc.

Macsén Llewelyn

6 Maes y Felin | Talybont | Ceredigion | SY24 5DZ

www.michaelrowlands.ltd.uk
m.rowlands1958@gmail.com

Michael Rowlands
Adeiladwr

01970 832 732 • 07929 003 576

Y Wennol Ddu – allwch chi fod o help?



Yn ôl pob tebyg mae trigolion pentrefi Ceulanmaesmawr yn ymwybodol iawn o wenoliaid. Dyma'r adar sy'n cyhoeddi bod yr haf ar y ffordd wrth iddyn nhw ddod yn ôl i'r ardal. Gwelir nhw yn aml uwchben y Patsyn Glas ar nosweithiau cynnes yr haf yn troi mewn cylch a sgrechian eu galwad arbennig.

Mae'r wennol yn aderyn anhygoel, yn treulio'r rhan fwyaf o'i bywyd yn hedfan, dim ond yn glanio ar ddechrau adeg nythu yn y gwanwyn neu'r haf. Dydy hi ddim yn dechrau bridio tan mae'n sawl blwydd oed ac yn aml ni fydd hi wedi glanio tan mae hi wedi ffeindio ei man nythu cyntaf a phartner. Mewn bwlch dan fondo tŷ neu wagle mewn wal mae hi'n nythu, hynny yw, man addas ar gyfer adeiladu nyth mewn pentref fel arfer yn hytrach nag adeilad yn y wlad. Mae'r wennol wedi rhannu ein hadeiladau gyda ni ers i'r Rhufeiniaid gyrraedd. Cyn hynny, pan oedd digon o goed, twll mewn coeden oedd y man nythu.



Bocsys i wenoliaid

Dim ond am tua pedwar mis o'r flwyddyn mae'r wennol yn aros yma gyda ni cyn mudo i'r Congo a manau is-drofannol yr Affrig am weddill y flwyddyn. Mae'r daith epig hon yn golygu hedfan dros Ffrainc, Sbaen, Moroco a gorllewin yr Affrig i gyd. Gellir dweud taw aderyn yr Affrig yw'r wennol sy'n digwydd taro mewn i'n gweld ni yng Nghymru a nythu yma!

Onid yn anffodus mae'r adar hyfryd yma mewn trafferth – bu cwmp o 58% yn eu niferoedd rhwng 1969 a 2018 sy'n golygu bod y wennol ar y Rhestr Goch o rywogaethau sydd dan fygythiad o ddiplannu. Mae colli eu manau i nythu yn un ffactor yn y cwmp gan nad yw tai newydd yn cynnig yr un cyfle i ddarganfod gwagle neu dwll ond mae nifer o resymau eraill hefyd; mae nifer y pryfed sy'n fwyd iddynt wedi gostwng yn aruthrol, mae newid yn yr hinsawdd yn arwain at dywydd garw iawn wrth fudo ac mae sychder tymor hir a'r system o amaethu dwys a'r datgoedwigo yn yr Affrig i gyd yn cyfrannu at y dirywiad yn eu niferoedd. Gyda'i gilydd mae'r ffactorau yma i gyd yn gwrthio poblogaeth y wennol i'r dibyn.

A dyma lle rydyn ni'n gallu bod o gymorth: mae'n rhaid i ni eu helpu i oroesi.

Oes oes gyda chi dŷ addas gallwch osod bocs iddyn nhw nythu. Lleolir y bocs yn uchel ar dalcen tŷ, man digon diogel i'r wennol fridio ac mae Gareth Pritchard yn y Llew Gwyn yn garedig iawn wedi caniatáu i ni osod dau focs i'r gwenoliaid ar dalcen y tŷ tafarn uwchben y maes parcio – maen nhw wedi eu pantio'n wyn i ymdoddi a'r wal.

Os oes gyda chi ddiddordeb mewn cynnig cymorth i'r wennol drwy osod bocs neu ddau ar wal eich tŷ yna dowch i'n sesiwn agored yn y Llew Gwyn ar ddydd Gwener 28 Ionawr rhwng 12 a 3 lle bydd mwy o wybodaeth, dysgu os yw eich tŷ yn addas a darganfod sut i gael bocs neu ddau.

Mick Green

UN WENNOL NI WNA WANWYN

LLAETH LLEOL ORGANIG
ar gael yn y
Cwtsh Llaeth Aberystwyth a Machynlleth

www.llaethjenkinsmilk.co.uk
07813 827 712
@cwtshllaeth

Hefyd ar gael yn siopau lleol.

Jenkins, Cerrigaranau Uchat, Talybont

Chwaraeon a Hamdden



Denodd ffotograff o'r gêm bêl-droed draddodiadol a chwaraewyd rhwng hen chwaraewyr Tal-y-bont a'r tîm presennol ar Ddydd Gŵyl San Steffan yn 1985 gryn sylw yn rhifyn Ionawr 2021 *Papur Pawb* a bu cryn ddyfalu beth oedd enwau'r holl chwaraewyr. Wedi tyrchu yn archifau *Papur Pawb* cafwyd hyd i lun arall, y tro hwn o'r tîm buddugoliaethus yn y gêm a chwaraewyd yn yr eira ar 26 Rhagfyr 1984. Byddai'n braf derbyn enwau'r chwaraewyr i gyd, gan gynnwys y rhai yn y cysgod yn y cefn. Cysylltwch â'r Golygydd Cyffredinol gyda'r enwau drwy golygydd@papurpawb.com

Yn ogystal â'r llun, cafwyd hyd i'r adroddiad isod ar y gêm a luniwyd gan Y Llumanwr Dall (sydd, mae'n debyg, yn dal i guddio o hyd rywle yn ne Cymru) ac a gyhoeddwyd yn rhifyn Ionawr 1985 o'r papur.

Tal-y-bont 3 Gwrthodedigion Tal-y-bont 4

Cafodd tîm pêl-droed Tal-y-bont wers mewn sgiliau'r gêm gan rai o hen chwaraewyr y pentref mewn gêm 'gyfeillgar' a gynhaliwyd ar fore Gŵyl San Steffan. Ar gae a orchuddiwyd gan eira, roedd medrusrwydd rhai o gyn-chwaraewyr y clwb yn amlwg o'r cychwyn gydag Eric Roberts yn gawr yn yr amddiffynfa a Geraint Roberts yn gadarn yn y gôl.

Tal-y-bont gafodd y gorau o'r hanner awr gyntaf gan sgorio dwy gôl (gan Anthony Southgate a Paul James) yn y cyfnod hwnnw ond cyn yr egwyl roedd y 'Gwrthodedigion' yn gyfartal gydag Eric Roberts a Marc Ebeneser yn sgorio goliau a fyddai wedi rhoi pleser i *Eric Gates* a *Mark Hughes* [blaenwyr enwog yn y dyddiau hynny – gol.].

Yn yr ail hanner roedd hen bennau (a hen goesau - oddeutu 36 ohonynt i gyd!) yn rheoli'r gêm a phan saethodd Dennis Roberts

ergyd bwerus i gefn y rhwyd o 40 llathen (neu fodfedd!), du iawn oedd y rhagolygon i Dal-y-bont, er yr eira! Serch hynny, sgoriodd Bryn Smith gôl ffodus (roedd yn camochri o filltir - lle roedd y llumanwr?) i wneud y sgôr yn gyfartal unwaith eto. Ond nid oedd modd cadw hen fechgyn y pentref yn dawel am hir a sicrhawyd y fuddugoliaeth pan daranodd Alwyn 'Coco' James y bêl i gefn y rhwyd i wneud y sgôr terfynol yn 4-3.

Uchafbwyntiau 'r gêm oedd

1. Arbediad gwych Aeron Edwards ar y llinell gôl pan 'ben-gliniodd' (yn llythrennol) y bêl i ffwrdd!
2. Y ffordd y dangosodd y tad (Dai Rich) i'w fab (Barry) sut i chwarae.
3. Sgidiau pêl-droed anarferol tafarnwr Y Llew Gwyn.

Mae sibrydion ar led fod Tal-y-bont yn awyddus i arwyddo un neu ddau o chwaraewyr ifainc newydd fel Ronnie Roberts, Dai Owen Evans a Gwyn Davies, a bod Johnny Southgate wedi ei israddio i fainc yr eilyddion o hyn allan!

Y Llumanwr Dall

Merched y Wawr Cangen Tal-y-bont a'r Cylch



Y Côr Plygain

Wedi saib o dair blynedd hir, braf iawn oedd bod yn bresennol mewn Oedfa Nadolig Gymunedol dan nawdd Merched y Wawr Tal-y-bont a'r Cylch ar nos Sul, 11 Rhagfyr yng Nghapel Bethel, Tal-y-bont.

Gwahoddwyd cymdeithasau a phwyllgorau lleol i gymryd rhan yn y gwasanaeth ynghyd â disgyblion Ysgol Gymunedol Tal-y-bont.

Llifodd y darlleniadau pwrpasol a'r gerddoriaeth – yn unawdau ac yn bartïon canu o'r dechrau i'r diwedd a rhoddwyd y fendith i gloi gan y Parch. Gwilym Tudur.

Derbyniwyd casgliad o dros £300 i Gylch Meithrin Tal-y-bont.

Diolch i bob un a gyfrannodd mewn unrhyw fodd i lwyddiant a bendith di-amheul y noson.

Gwasanaeth argraffu diguro

Holwch Paul
am bris!
paul@yloffa.com
01970 832 304

yloffa
Talybont
Ceredigion
SY24 5HE
www.yloffa.com